

Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013–14

Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Sir Gaerfyrddin

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd lle bu cynnydd a'r meysydd lle mae angen gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Gaerfyrddin ar gyfer y flwyddyn 2013–14

Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2013 - 2014

Awdurdod Lleol: Cyngor Sir Caerfyrddin

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r meysydd cynnydd allweddol a'r meysydd i'w gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Caerfyrddin am y flwyddyn 2013- 14

Crynodeb

Mae'r cyngor yn parhau i elwa o arweiniad cryf ar draws gwasanaethau plant ac oedolion, fel ei gilydd. Mae gan yr uwch swyddogion weledigaeth glir ac maent yn gweithredu cynlluniau'n effeithiol er mwyn sicrhau bod pobl sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin sydd angen gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael bywyd o well ansawdd. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn cadarnhau bod y cyngor yn parhau i roi blaenoriaeth i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol a bod ei gynlluniau yn parhau i fod yn uchelgeisiol er gwaethaf y cyfyngiadau ariannol y mae'n eu hwynebu. Mae ei gyllidebau'n cael eu rheoli'n dda.

Mae'r cyngor wedi gweithredu nifer o brosiectau arloesol ac wedi darparu tystiolaeth o amrywiol ganlyniadau cadarnhaol sydd wedi cael eu cyflawni drwy drawsnewid gwasanaethau'n strategol. Mae wedi nodi ei fwriad i roi'r rheolaeth dros wasanaethau y maent yn eu derbyn yn nwylo'r bobl ac i gefnogi mwy o bobl i fyw bywydau annibynnol. Mae'n ceisio lleihau dibyniaeth ar ei wasanaethau drwy gryfhau'r cymorth a geir mewn cymunedau.

Mae adroddiad perfformiad blynyddol y cyngor wedi cael ei strwythuro i adlewyrchu elfennau allweddol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru). Mae'n amlwg y bydd mewn sefyllfa gref i ddarparu gwasanaethau o fewn y fframwaith deddfwriaethol newydd. Mae'r cyngor wedi datgan sut y bydd yn cyflenwi gwasanaethau sy'n arddangos bod gwasanaethau'n cael eu comisiynu a'u hintegreiddio'n well, lle bydd lles a llais dinasyddion yn ganolog i gyflenwi gwasanaethau.

Mae'r cyngor yn cydnabod bod yr hinsawdd economaidd bresennol, y newidiadau lles a phwysau demograffig, yn heriau sylweddol i'r dyfodol. Mae'n realistig ynglŷn â sut i baratoi ar gyfer gofynion newydd a disgwyliadau newidiol y cyhoedd. Mewn ymateb i ddisgwyliad Llywodraeth Cymru i iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i bobl hŷn gael eu hintegreiddio, mae'r cyngor wedi datgan ei fwriadau. Mae'r cynnydd sydd eisoes wedi'i wneud yn Sir Gaerfyrddin yn awgrymu bod y cyngor mewn sefyllfa dda i gyflawni'r weledigaeth hon am wasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig.

Mae Polisi Llywodraeth Cymru, 'Mwy na Geiriau', y fframwaith strategol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn y gweithlu gofal cymdeithasol, yn cael ei weithredu'n

effeithiol, gyda mesurau'n cael eu datblygu i sicrhau bod pobl yn cael mynediad i'r gwasanaethau drwy gyfrwng eu dewis iaith.

Mae adroddiadau gan gyfarwyddwyr a phenaethiaid gwasanaethau wedi nodi'n glir eu gweledigaeth o ddarparu gwasanaethau integredig yn fwy cost effeithiol. Ceir cynlluniau clir i ddangos sut y bydd bywydau pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cael eu gwella drwy gyflenwi gwasanaethau sydd wedi'u cydlynw'n well. Mae'r cyngor yn glir ynghylch eu blaenoriaethau ac mae wedi parhau i wneud gwelliannau gydol y flwyddyn.

Ymateb i feysydd oedd i'w gwella y llynedd

Mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd da yn y meysydd y nodwyd bod angen eu gwella yn adroddiad adolygiad a gwerthusiad blynyddol o berfformiad AGGCC yn 2012-13.

Maes i'w wella a nodwyd y llynedd	Cynnydd yn 2013 - 14
Parhau â'r gwaith ar ddatblygu gwasanaeth integredig i oedolion ag anableddau dysgu	Mae'r cynnydd parhaus wedi cael ei gynnal gyda rhai prosiectau arloesol yn datblygu
Datblygu cyfrwng asesu mwy effeithiol ym maes gwasanaethau oedolion	Cafodd asesiad integredig ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ei weithredu yn y gwasanaethau i bobl hŷn. O ran gwasanaethau anableddau dysgu, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, mae systemau TGCh anghydnaws yn cyfyngu ar y cynnydd.
Datblygu dangosyddion perfformiad ym maes gwasanaethau oedolion i ddangos canlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaethau.	Mae'r cyngor yn parhau i adolygu sut mae'n casglu, yn cofnodi ac yn monitro data ym maes gwasanaethau oedolion
Mae angen i'r tîm pontio plant ac oedolion ar gyfer gwasanaethau i'r anabl angen sicrhau bod cyrff cyllido wedi'u hunioni'n well er mwyn sicrhau dull mwy integredig o bontio gwasanaethau.	Cyflawnwyd hyn drwy fod y gwasanaeth hwn yn cael ei oruchwylio ar y cyd gan bennaeth y gwasanaethau plant ac oedolion.
Datblygu gwasanaethau gofal dementia ymhellach.	Mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd da i ddatblygu gwasanaethau gofal dementia.
Lleihau'r oedi gydag ymchwiliadau	Mae'r cyngor wedi cynyddu nifer y staff

diogelu ym maes gwasanaethau oedolion.	sy'n gallu cynnal yr ymchwiliadau hyn.
Sicrhau bod gan blant a theuluoedd fwy o gysylltiad, rhan a llais yn y broses o siapio gwasanaethau.	Mae'r cyngor wedi adolygu'r strategaeth gyfranogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc.
Cynlluniau unigol i blant i ddarparu amcanion cliriach a dylai'r rhain fod wedi'u cyplysu â gwella canlyniadau i blant.	Mae'r cyngor yn datblygu fframwaith i sicrhau bod cynlluniau'n adlewyrchu sut caiff canlyniadau plant eu cyflawni.
Cynyddu cyfran yr asesiadau lle caiff plentyn ei weld gan weithiwr cymdeithasol a'r gyfran lle caiff plant eu gweld ar eu pen eu hunain.	Mae'r dangosydd perfformiad cenedlaethol ar gyfer y meysydd hyn wedi gwella. Er hynny, mae'r perfformiad yn dal yn is na'r ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru.
Cynnal cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol yn fwy amserol.	Gwnaed gwelliannau yn y gwasanaeth cynadleddau amddiffyn plant ac mae'r dangosyddion perfformiad yn awr yn uwch na'r ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru.
Datblygu ymhellach y gwaith ar gysylltu â theuluoedd y mae plentyn iddynt ar y gofrestr amddiffyn plant.	Mae'r cyngor wedi cynnal prosiect peilot i adolygu'r broses o gysylltu â phlant a'u teuluoedd yn y broses amddiffyn plant.
Gwella perfformiad wrth ddatblygu cynlluniau addysg personol (CAP) i blant sy'n derbyn gofal a gwell cyrhaeddiad i blant sy'n derbyn gofal yng Nghyfnod Allweddol 3.	Cyflawnwyd hyn drwy welliannau sylweddol wrth ddatblygu CAP. Mae'r canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal yng nghyfnod allweddol 3 wedi gwella.
Perfformiad gwell o ran cwblhau adolygiadau statudol yn amserol i blant sy'n derbyn gofal.	Mae amseroldeb adolygiadau statudol i blant sy'n derbyn gofal wedi gwella.
Gwella sefydlogrwydd lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal.	Mae sefydlogrwydd lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal wedi gwella ychydig.
Sicrhau bod y cyfarwyddwr yn cadw cysylltiad ac yn goruchwyllo'r byrddau rhanbarthol diogelu oedolion a phlant.	Mae hyn wedi cael ei gynnal gyda'r cyfarwyddwr yn goruchwyllo'r byrddau.

Ymweliadau ac arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn

- Arolygiad Cenedlaethol o gynlluniau diogelu a gofal ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a Rhai sy'n Gadael Gofal sy'n arddangos ymddygiad peryglus neu agored i niwed ('arolygiad plant sy'n derbyn gofal arolygu').
- Adolygiad Cenedlaethol o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DOLS).
- Adolygiad Cenedlaethol o gomisiynu gofal cymdeithasol i bobl hŷn - cynhaliodd y cyngor hunan werthusiad a oedd yn bwydo i'r adolygiad cenedlaethol.
- Gwneud cynlluniau pontio ar gyfer plant anabl sy'n mynd yn oedolion.
- Gweithredu Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.
- Gweithredu Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010.
- Trefniadau craffu ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant.
- Y rhaglen o arolygiadau o wasanaethau rheoledig.
- Cyfarfodydd ymgysylltu gydag uwch swyddogion y cyngor.

Meysydd mae angen i'r AGGCC olrhain eu cynnydd y flwyddyn nesaf

- Cynnydd ar foderneiddio ac integreiddio gofal cymdeithasol i oedolion.
- Gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol ym maes gwasanaethau plant a theuluoedd.
- Trosolwg ar y trefniadau craffu.
- Cynnydd ar gyflawni'r argymhellion a nodwyd o'r ymweliadau a wnaed gan AGGCC yn ystod blwyddyn 2013/14.
- Bydd AGGCC yn cyfrannu at adolygiad dan arweiniad Swyddfa Archwilio Cymru i archwilio a yw cyngorau yn cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn effeithiol, gan gynnwys drwy weithio cydgysylltiedig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Perfformiad

Siapio gwasanaethau

Oedolion

Mae'r cyngor yn parhau i wneud cynnydd cadarn i ail-siapio gwasanaethau i oedolion gyda'r rhaglen drawsnewid yn hyrwyddo a chefnogi pobl i gynnal eu hannibyniaeth a chael bywyd cyflawn yn eu cymuned eu hunain. Mae gwasanaethau'n cael eu hunioni i sicrhau cydbwysedd rhwng dulliau ataliol a chefnogi'r rhai hynny sydd eisoes yn agored i niwed. Mae'n amlwg bod y cyngor yn deall demograffeg yr angen, yn targedu gwasanaethau'n unol â hynny, ac yn cynllunio'n effeithiol i fodloni'r galw i'r dyfodol.

Mae'r cyngor yn datblygu gwasanaethau newydd mewn ffordd arloesol, a bydd mewn sefyllfa gref pan ddaw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) i

rym, gyda chamau i unioni'r gwasanaethau oedolion a phlant yn ganolog i ad-drefnu rhai gwasanaethau. Yn yr adolygiad o wasanaethau pontio ar gyfer pobl ifanc anabl roedd yn amlwg bod y model cyflenwi gwasanaeth integredig yn gweithio'n dda, gyda staff o'r gwasanaethau oedolion a phlant yn cydweithredu'n effeithiol er lles y bobl sy'n derbyn gwasanaethau.

Mae'r cyngor yn datblygu canllawiau i gefnogi egwyddorion dull integredig o gyflenwi gwasanaethau. Mae'r cyngor wedi comisiynu adolygiad o wasanaethau i bobl sydd ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig (ASA) a bydd yn datblygu cynllun integredig sengl ar gyfer comisiynu a chyflenwi gwasanaethau ar gyfer plant ac oedolion ag ASA. Yr her i'r cyngor fydd sut i gyflenwi gwasanaeth unedig sy'n bodloni anghenion yr asesydd sydd gan bobl yn yr hinsawdd ariannol bresennol.

Mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud i ail-siapio gwasanaethau i bobl ag anabledau dysgu, gyda gwell cyfleoedd ar gyfer gwaith a chyfleoedd hamdden yn y gymuned. Mae prosiectau fel COASTAL, CEI a STEPS wedi bod yn allweddol yn y datblygiadau hyn, gyda thystiolaeth gadarn ar gael i gadarnhau'r cyfleoedd i wella bywyd y mae'r gwasanaethau hyn wedi'u darparu. Bydd angen i'r cyngor sicrhau bod y datblygiadau cadarnhaol hyn mewn gwasanaethau yn tyfu ac yn ffynnu yn yr hinsawdd ariannol bresennol ac wrth i'r arian Ewropeaidd canolog sy'n eu cefnogi nhw ddod i ben.

Mae gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn yn parhau i gael eu cyflenwi mewn dull integredig gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda; gyda chytundeb Adran 33 yn cael ei gweithredu'n effeithiol. Fodd bynnag, mae ailstrwythuro pellach o fewn y bwrdd iechyd wedi effeithio ar amseroldeb datblygiadau mewn rhai gwasanaethau.

Plant

Mae'r cyngor wedi adolygu ac ymestyn y strategaeth cymorth a'r cynllun gweithredu i deuluoedd hyd at 2017 yn unol â rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yn nodi sut y bydd y cyngor yn sicrhau bod yna unioniad rhwng gwaith statudol ac anstatudol i leihau anfantais a thlodi mewn teuluoedd. Bydd hyn yn cryfhau'r trefniadau sydd ar waith gan ganolbwyntio ar ganlyniadau gwell, i blant a phobl ifanc.

Er mwyn cryfhau'r strategaeth ataliol, caiff y rhaglen Dechrau'n Deg ei hymestyn gydag ardaloedd ychwanegol yn cael eu datblygu gan ehangu'r prosiectau presennol. Mae ystod o wasanaethau integredig yn cael eu darparu o'r ardaloedd hyn i gefnogi teuluoedd; mae'r rhain yn cynnwys darpariaethau addysg gynnar megis cylchoedd chwarae, dosbarthiadau magu plant a'r rhaglen cryfhau teuluoedd. Canfu arolygiadau AGGCC fod y gwasanaethau oedd wedi cofrestru gyda Dechrau'n Deg yn darparu i blant ganlyniadau chwarae a dysgu da.

Mae prosiect arloesol wedi ei gyflwyno mewn ysgolion fel rhan o'r Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF). Mae'r model yn seiliedig ar ymarfer adferol sy'n

canolbwyntio ar ddatblygu perthnasoedd gyda'r nod o ymgysylltu'n well â theuluoedd sy'n anodd eu cyrraedd. Bydd hyn yn cryfhau'r amrediad o wasanaethau cymorth sydd ar gael i deuluoedd ac yn ategu gwasanaethau eraill megis y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd.

Yn ddiweddar, mae'r cyngor wedi gweithredu gwasanaeth integredig cymorth i deuluoedd sy'n ceisio gweithio gyda theuluoedd mewn ffordd fwy cydlynol ac yn gynharach i sicrhau sefydlogrwydd a gwell canlyniadau hirdymor. Mae'r cyngor wedi adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd ac mae mewn sefyllfa gref i ddatblygu gwasanaethau cymorth ataliol pellach. Mae'r gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal unwaith eto'n cadarnhau bod y strategaeth ataliol yn gweithio'n effeithiol i gefnogi teuluoedd yn gynnar ac i atal ymyrraeth statudol.

Mae'r model ailfeddiannu gwaith cymdeithasol sy'n seiliedig ar 'Fodel Hackney' a gyflwynwyd y llynedd (fel cynllun peilot) wedi ei gryfhau. Mae tîm dynodedig yr Uned Plant a Theuluoedd yn datblygu ffyrdd arloesol o weithio gyda theuluoedd sy'n dod i mewn drwy'r llwybr statudol, gan ddefnyddio dull aml-asiantaeth, sy'n seiliedig ar gryfderau. Gwnaed gwerthusiad o'r gwaith hwn ac mae'n dangos y cafwyd cysylltu cadarnhaol gyda theuluoedd i leihau risgiau, a bod y canlyniadau i blant wedi gwella.

Meysydd cynnydd

- Yn parhau i ddatblygu dull integredig o gyflenwi gwasanaethau i oedolion gyda'r gwasanaethau cymdeithasol ac iechedd.
- Mae'r cyngor yn ystyried datblygu gwasanaethau'n unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru).
- Mae pobl yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch datblygu a chyflenwi gwasanaethau.
- Yn parhau i gryfhau'r strategaeth ymyrraeth gynnar ac ataliol ym maes gwasanaethau plant.

Meysydd i'w gwella

- Datblygu gwasanaethau i bobl ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig.
- Cryfhau'r strategaeth ataliol i deuluoedd sydd â phlant ag anawsterau emosiynol ac ymddygiad heriol.

Cael help

Oedolion

Mae gan y cyngor drefniadau da ar waith i alluogi pobl i wneud dewisiadau gwybodus am gynlluniau a gwasanaethau iechedd a lles. Mae'n parhau i ddatblygu ac ymestyn y trefniadau cyswllt er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwybod am yr ystod o wasanaethau sydd ar gael. Mae'r wefan gofal cymdeithasol i

oedolion wedi cael ei ddiweddarau, ac mae'n darparu cyfoeth o wybodaeth sydd o fewn cyrraedd hawdd. Mae'r adborth gan ddefnyddwyr y Fforwm 50 + a'r Panel Dinasyddion yn gadarnhaol.

Cafodd Timau Adnoddau Cymunedol eu datblygu gyda'r nod o gefnogi pobl yn fwy effeithiol yn y gymuned gan beidio â dod yn ddibynnol ar wasanaethau gofal cymdeithasol. Mae cynllun brocera trydydd sector yn cyplysu â'r timau, gan ategu eu rôl yn cael mynediad i adnoddau cymunedol er mwyn gwella lles cyffredinol pobl a'u galluogi i fyw bywyd mwy gweithgar yn eu cymuned.

Mae'r cyngor yn parhau i fod â phrosesau cyfeirio effeithiol drwy gyfrwng y Llinell Gofal a Mwy, a gwnaed gwelliannau pwysig mewn amseroedd ymateb o'r cyfeirio i'r cyswllt cyntaf gan yr ymarferydd. Fodd bynnag, mae cyfradd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol wedi cynyddu o 4.6% yn 2012-13 i 6.6% eleni. Mae'r cynnydd hwn yn peri pryder ac mae'r cyngor yn credu mai prinder mewn gwasanaethau gofal cartref yw'r prif ffactor. Mae hyn yn amlwg yn her i'r cyngor yn ei rôl gomisiynu. Mae'r cyngor, ar y cyd â Bwrdd Iechyd Hywel Dda, yn ceisio rhoi sylw i'r diffyg hwn. Mae angen i hyn fod yn flaenoriaeth i sicrhau y gall pobl adael yr ysbyty pan fyddant yn barod i wneud hynny.

Mae'r cyngor yn parhau i weithio'n effeithiol i ddatblygu gwasanaethau sy'n cefnogi annibyniaeth pobl a'u cynnal yn eu cartref a'u cymuned. Mae ystod o wasanaethau arloesol wedi'u sefydlu, gan gynnwys y gwelyau ymadfer - a oedd yn ystod y deuddeg mis diwethaf wedi darparu gwasanaeth i 133 o bobl; ynghyd â'r cynllun gwelyau hyblyg - a oedd wedi darparu gwasanaeth i 169 o bobl. Mae'r gwasanaeth ailalluogi wedi cynyddu ei ddarpariaeth, gyda mwy o bobl yn cael eu cefnogi i fyw bywyd annibynnol, gyda 31% o bobl nad oeddent angen gwasanaeth parhaus. Mae'r cyngor yn parhau i hyrwyddo'r cynllun taliadau uniongyrchol ar draws gwasanaethau oedolion. Mae gwasanaethau i bobl ag anabledd corfforol a nam ar y synhwyrau wedi gwella eu perfformiad o ran hybu annibyniaeth a chynhwysiant cymdeithasol.

Mae gwell prosesau asesu yn sicrhau bod pobl wrth wraidd penderfyniadau sy'n effeithio arnynt; mae dull cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion wedi cael ei weithredu yn y gwasanaethau anableddau dysgu ac iechyd meddwl. Cafodd fframwaith asesu integredig hefyd ei gyflwyno ym maes gwasanaethau pobl hŷn drwy gyfrwng prosiectau fel Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion (TASC). Mae'r rhain yn ddatblygiadau cadarnhaol, ond mae'n hanfodol bod y cyngor hefyd yn monitro ac yn rheoli elfennau sylfaenol asesu effeithiol, cynllunio gofal ac adolygu. Yn ystod y flwyddyn, bu gostyngiad yn amseroldeb adolygiadau gyda dim ond 63.8% o adolygiadau'n cael eu cynnal yn ôl y gofyn. At hynny, mae arolygiadau o wasanaethau rheoledig yn dangos bod hyn ar adegau yn cael effaith andwyol ar y canlyniadau i bobl.

Yn yr adolygiad o weithredu Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010, gwelsom fod y cyngor ar y cyd â'r bwrdd iechyd yn cyflenwi ystod dda o wasanaethau sydd â'r nod o ddarparu achubiaeth i bobl agored i niwed. Mae'r

cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr yn gweithio'n dda i gefnogi rôl gofalwyr. Ceir peirianweithiau adrodd effeithiol ac mae'r aelod etholedig dynodedig dros ofalwyr yn rhagweithiol i sicrhau bod y cyngor yn darparu gwasanaeth ymatebol. Mae'r cyngor yn comisiynu gwasanaeth gwybodaeth i ofalwyr gwerthfawr iawn gan Gweithredu dros Wasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin. Mae ystod eang o adnoddau a gwybodaeth ar gael, ac mae gofalwyr wedi helpu i ddatblygu'r rhain. Mae gan y cyngor beirianweithiau effeithiol gyda 100% o ofalwyr yn cael eu hasesu. Fodd bynnag, mae perfformiad y cyngor yn is na chyfartaledd Cymru o ran adolygu asesiadau a dylid rhoi sylw i hyn er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a gyflenwir yn parhau i fodloni anghenion asesedig unigolion.

Plant

Drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd mae'r cyngor yn parhau i ddarparu i deuluoedd, plant a phobl ifanc ystod dda o wybodaeth am ei wasanaethau ataliol a'i wasanaethau cymorth. Mae'r wybodaeth hon o fewn cyrraedd hawdd ac mewn amrywiol fformatau. Mae'r wefan wedi cael ei diweddarau gyda lansiad swyddogol ym mis Hydref 2013 ac fe wnaeth 2,500 o deuluoedd gymryd rhan. Adroddwyd bod nifer yr ymwelwyr i'r wefan wedi cynyddu 40% ers mis Medi 2013. Er bod y wefan hon yn darparu cyfoeth o wybodaeth i gefnogi rhieni, nid yw'n rhoi manylion am rôl AGGCC yn rheoleiddio gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar. Dylai'r wybodaeth hon gael ei chynnwys er mwyn helpu rhieni i ddeall pwysigrwydd sicrhau bod gwasanaeth wedi'i gofrestru er mwyn darparu mesurau diogelu priodol i blant.

Mae mynediad i wasanaethau statudol wedi'i gydlynyn well gyda rhannu gwybodaeth yn ganolog i'r gwaith gan ddarparu ymateb aml-asiantaeth pryd bynnag y mae asesiadau'n dynodi bodd dull cyfannol yn ofynnol. Cafodd canolfan diogelu plant aml-asiantaeth (MASH) ei chyflwyno ar y cyd ag asiantaethau partner. Mae wedi'i lleoli yn uned gyfeirio ganolog Heddlu Dyfed Powys. Y bwriad yw gwella diogelu ar gyfer plant drwy rannu gwybodaeth yn well a drwy ymatebion amserol. Prosiect peilot yw hwn a chaiff ei werthuso a'i adolygu gan Fwrdd Lleol Diogelu Plant Gorllewin Cymru.

Mae'r gwasanaeth ar ddyletswydd wedi ei ad-drefnu i ddarparu un pwynt cysylltu ar gyfer atgyfeiriadau amddiffyn plant, i ddarparu dull mwy cyson o wneud penderfyniadau. Mae'n amlwg bod yr ailstrwythuro hwn wedi darparu gwasanaeth mwy ymatebol gyda 99% o benderfyniadau'n cael eu gwneud o fewn diwrnod. Mae cyfran yr atgyfeiriadau a ddyrannwyd ar gyfer asesiad wedi cynyddu 0.8 pwynt canran gyda 2.3% o'r holl atgyfeiriadau ddim yn symud ymlaen i gael eu dyrannu.

Canfyddiadau cadarnhaol gafwyd yn bennaf yn yr archwiliad blynyddol o wasanaeth maethu'r cyngor, ond canfu nad oedd pob gofalwr maeth yn cael adolygiad blynyddol o'i gymeradwyaeth, fel sy'n ofynnol. Roedd hwn yn fater penodol i'r gofalwyr hynny sy'n deulu a ffrindiau. Mae angen i'r cyngor sicrhau bod y grŵp hwn o ofalwyr cymeradwy'n cael yr un flaenoriaeth â gofalwyr maeth y brif ffrwd. Bydd hyn yn sicrhau canlyniadau da i bob plentyn sy'n derbyn gofal.

Mae ystod dda o wasanaethau cymorth i deuluoedd yn cael eu darparu i blant anabl a'u teuluoedd, gyda bwriad i ehangu'r ysgol breswyl, er mwyn darparu lleoliadau am hyd at hanner cant a dau o wythnosau. Dynododd yr archwiliadau blynyddol o wasanaethau preswyl i blant anabl fod y gwasanaethau hyn yn cynnig profiadau bywyd cadarnhaol i blant a'u bod yn gwella'u canlyniadau.

Meysydd cynnydd

- Gwell gwybodaeth i ddinasyddion Sir Gaerfyrddin am y gwasanaethau sydd ar gael ym maes gofal cymdeithasol i blant ac oedolion.
- Gwasanaethau wedi'u hunioni'n well yn y cymunedau lleol.
- Mwy yn defnyddio'r cynllun taliadau uniongyrchol.
- Gwell proses asesu ym maes gofal cymdeithasol i oedolion gan roi pobl wrth galon y broses gwneud penderfyniadau.
- Gwell gweithio aml-asiantaeth ym maes gwasanaethau plant.

Meysydd i'w gwella

- Gwella'r cyfraddau oedi wrth drosglwyddo gofal ym maes gofal cymdeithasol i oedolion.
- Datblygu trefniadau gwell ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal cartref ym maes gwasanaethau i oedolion.
- Gwella nifer yr adolygiadau ym maes gofal cymdeithasol i oedolion.
- Cynnal adolygiadau o ofalwyr maeth yn flynyddol fel sy'n ofynnol.

Y gwasanaethau a ddarperir

Oedolion

Mae'r cyngor wedi ymrwymo i gynorthwyo pobl i gynnal eu hannibyniaeth cymaint â phosibl ac yn parhau i ddatblygu modelau gofal integredig newydd fel rhan o'i strategaeth drawsnewid. Mae prosiect Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion (TASC) yn darparu model cymorth integredig, sy'n seiliedig ar roi grym i bobl i gymryd rhan yn eu gofal a gwneud penderfyniadau am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Mae hyn wedi arwain at newid mewn arferion gwaith i staff, gyda llai o ddyblygu ac ymarferwyr iechyd gofal a chymdeithasol yn gweithio ar y cyd i wella lles cyffredinol pobl. Mae'r ymatebion i atgyfeiriadau wedi dangos gwelliant sylweddol ers i'r prosiect gael ei roi ar waith ym mis Tachwedd 2012. Yn ogystal, bu gostyngiad sylweddol yn y niferoedd sy'n dychwelyd i'r gwasanaeth; mae hyn yn awgrymu ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar y canlyniadau ar gyfer pobl.

Mae'r cyngor yn rheoli Cynllun Lleoliadau i Oedolion Gorllewin Cymru. Canfu'r arolygiad o'r gwasanaeth hwn ei fod yn cael ei werthfawrogi gyda phobl yn cael ystod o brofiadau cadarnhaol. Mae gofalwyr yn cael eu cefnogi'n effeithiol a nodwyd y ceir trefniadau gwell. Mae cysylltiadau effeithiol ar waith rhwng y

gwasanaethau i oedolion a'r gwasanaethau i blant wrth gynllunio ar gyfer pontio er mwyn sicrhau dilyniant y gwasanaeth ar gyfer pobl ifanc a'u teuluoedd.

Mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol yn datblygu gwasanaethau gofal Dementia, gyda'r bwrdd gweithredu gofal dementia yn cymeradwyo strategaeth '*Dyfodol Cadarnhaol*' i wella gwasanaethau i bobl â dementia dros y pum mlynedd nesaf. Mae cymuned gyfeillgar i ddementia wedi cael ei dynodi gyda'r nod o ddarparu cymorth cymunedol mwy effeithiol.

Mae'r cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol, ar y cyd â Llywodraeth Cymru a'r Gymdeithas Tai Teulu, i ddatblygu llety gofal ychwanegol ar gyfer pobl sydd â gwahanol anghenion. Bydd y cynlluniau'n disodli'r gwasanaethau preswyl presennol ac yn darparu opsiynau tai gwell. Bydd y cyngor drwy ei gyfarfodydd ymgysylltu gydag AGGCC yn sicrhau ei fod yn parhau i gyfathrebu ynghylch cynnydd y gwasanaethau hyn.

Yn yr adolygiad o wasanaethau a ddarparwyd o dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, canfu AGGCC fod trefniadau strategol effeithiol ar waith rhwng Bwrdd Iechyd Hywel Dda a'r cyngor. Adroddwyd bod y trefniadau i gefnogi Rhan 1, 2 a 3 o'r mesur yn gweithio'n dda ac y ceir adroddiadau am well gweithio aml-asiantaeth. Fodd bynnag, mae hyn yn cael ei lesteirio gan systemau TG anghydnaws ac mae hwn yn faes sydd angen sylw pellach i gefnogi gwell cydweithredu a gwell canlyniadau i bobl. Adroddwyd hefyd ei bod yn anodd i bobl sydd â diagnosis deuol, sef anabledd dysgu ac iechyd meddwl, gael cymorth gan y gwasanaethau priodol. Er bod arweiniad wrthi'n cael ei ddrafftio i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau triniaeth effeithiol, bydd angen i'r cyngor ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd Sicrhau y gall pobl gael mynediad i'r gwasanaeth cymorth mwyaf priodol. Adroddwyd bod darparu Rhan 4 o'r Mesur - y gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol - yn gweithio'n dda.

Plant

Mae'r cyngor yn parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau i blant a phobl ifanc i'w cynorthwyo pryd bynnag y bo hynny'n bosibl i aros gyda'u teuluoedd yn eu cymuned. Ceir gweledigaeth glir am yr angen am atal ac ymyrryd yn gynnar, a hynny drwy ddull gweithredu aml-asiantaeth integredig.

Canfu'r adolygiad o wasanaethau pontio fod y gwasanaethau a ddarperir i bobl ifanc a'u teuluoedd yn seiliedig ar sylfaen werth gref sy'n rhoi lle canolog i anghenion pobl ifanc anabl wrth gyflenwi gwasanaethau. Yn gyffredinol, mae gwasanaethau pontio yn canolbwyntio ar ddatblygu annibyniaeth gyda thystiolaeth bod pobl ifanc yn cael canlyniadau da. Mae'r cyngor yn darparu cyfarwyddyd ac arweiniad strategol clir ar sut ddylai gwasanaethau pontio gael eu darparu a cheir nifer o grwpiau strategol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu gwasanaeth mwy cydlynol. Mae'r tîm pontio arbenigol yn ceisio gweithredu drwy ddull aml-asiantaeth integredig i gefnogi pobl ifanc sydd ag anabledd rhwng un ar bymtheg a phump ar

hugain oed. Er bod y cyngor wedi rhoi sylw i'r trefniadau cyllido rhwng ei wasanaethau plant a'i wasanaethau oedolion ei hun er mwyn unioni gwasanaethau'n well, nid yw hyn wedi cael ei gyflawni gyda'i bartneriaid ieuchyd ac ni cheir gweithiwr ieuchyd fel rhan o'r tîm pontio. Er bod y llwybr o'r tîm anabledd plant i'r gwasanaeth pontio yn glir nid yw hwn yn fynediad unedig ac mae'n allgau pobl ifanc ag anabledd corfforol ac anhwylderau ar y sbectrwm awtistig, oni bai bod ganddynt hefyd anabledd dysgu cysylltiedig. Mae hwn yn faes i'w ystyried fel rhan o'r strategaeth ar gyfer gwasanaethau pontio yn ogystal â sicrhau ei fod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer mynediad i wasanaethau oedolion.

Canfu'r arolygiad o blant sy'n derbyn gofal fod gwasanaethau i blant yn un o'r blaenoriaethau corfforaethol. Mae'r cyngor yn hyrwyddo ethos gofal o fewn y teulu yng nghymuned y plentyn ei hun ac mae'n ymwneud yn gywir ddigon â chynnal cysylltiadau â'r teulu, yr ysgol a'r gymuned. Mae'r awdurdod yn parhau i fod ymhlith y gorau yng Nghymru am gefnogi plant sy'n derbyn gofal i aros yn y sir - yn unol â gofynion *Bywydau Sefydlog Dyfodol Gwell*, ond mewn rhai achosion roedd yn ymddangos bod cadw'r person ifanc yn yr ardal leol yn fwy o flaenoriaeth na bodloni eu hanghenion. Yn yr achosion hyn roedd pobl ifanc wedi bod drwy nifer sylweddol o leoliadau aflwyddiannus y gellid bod wedi rhagweld y byddent yn chwalu, ac er bod canlyniadau cadarnhaol wedi eu sicrhau yn ystod y flwyddyn i wella sefydlogrwydd lleoliadau, mae'n amlwg ar gyfer grŵp bach o blant fod hyn yn parhau i fod yn broblem. Amlygodd yr arolygiad rheoliadol o wasanaeth maethu'r cyngor nad oedd proses baru gadarn i blant i'w gweld bob amser. Felly, mae angen i'r cyngor flaenoriaethu sut mae eu strategaeth leoli a'u prosesau paru yn arwain at well dewis o leoliadau a sefydlogrwydd i blant sy'n derbyn gofal.

Adolygodd AGGCC wasanaethau i ofalwyr ifanc a gwelwyd bod y cyngor wedi cryfhau'r cymorth a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu. Mae gofalwyr ifanc yn elwa o'r cymorth maent yn ei dderbyn ac maent yn chwarae rhan amlwg i lunio'r gwasanaethau cymorth. Caiff gwasanaethau eu cyflenwi drwy ddull cydgysylltiedig gyda'r bwrdd ieuchyd a cheir unioniad rhwng cymorth i ofalwyr ifanc a gwasanaethau eraill, megis lles addysg a'r tîm o amgylch y teulu. Mae hyn yn sicrhau bod modd canfod plant sydd â rôl ofalu ac mae'n amlwg bod y cydgynllun hwn yn gwella canlyniadau ar gyfer gofalwyr ifanc. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd asesiad o 100% o ofalwyr ifanc sy'n hysbys i'r cyngor ac fe wnaeth 98.2% ohonynt dderbyn gwasanaeth.

Meysydd cynnydd

- Cydlynu gwasanaethau'n well ym maes gofal cymdeithasol i oedolion.
- Datblygu gwasanaethau dementia.
- Integreiddio gwasanaethau i oedolion a phlant er mwyn sicrhau gwell pontio gwasanaethau.
- Mae'r trefniadau wedi cael eu cryfhau mewn ysgolion i sicrhau bod gan deuluoedd well mynediad i wasanaethau ataliol a chymorth.

Meysydd i'w gwella

- Integreiddio TG ym maes gwasanaethau i oedolion i gefnogi gweithio aml-asiantaeth effeithiol.
- Gwell mynediad i wasanaethau iechyd meddwl.
- Datblygu mynediad unedig i wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau.
- Mae angen cryfhau'r strategaeth leoli a'r broses baru ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Effaith ar fywydau pobl

Oedolion

Mae'r perfformiad ym maes gwasanaethau pobl hŷn yn dangos bod aildrefnu gwasanaethau sy'n cynorthwyo pobl i fyw bywydau annibynnol yn y gymuned yn dechrau dangos canlyniadau gwell. Mae llai o bobl angen gofal preswyl. Cyflawnwyd hyn drwy ddatblygu'r gwasanaethau ailalluogi a drwy gyfrwng y dull integredig o gyflenwi gwasanaethau rhwng y bwrdd iechyd a'r cyngor. Bydd datblygu gwasanaethau cymunedol integredig ymhellach yn allweddol i lwyddiant parhaus er mwyn sicrhau gwelliant mewn ymateb i ofal heb ei drefnu a bod mwy o ddarpariaeth gofal cartref ar gael.

Mae gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu ac iechyd meddwl wedi parhau i wella, gyda mwy o wasanaethau cymunedol ar gael a llai o ddibyniaeth ar ofal preswyl. Mae nifer o wasanaethau byw â chymorth newydd wedi cael eu datblygu a bwriedir agor cynlluniau pellach yn ystod y deuddeg mis nesaf. Er y bu cynnydd o 15 pwynt canran yn nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau mae'r cyngor wedi gwella ar ei amserlen ar gyfer asesiadau.

Cynhaliwyd adolygiad thematig ar draws pob cyngor yng Nghymru o effeithiolrwydd comisiynu gofal cymdeithasol i oedolion gan ganolbwyntio ar gomisiynu gofal a chymorth i bobl â dementia a'u gofalwyr. Fel rhan o'r adolygiad hwn cynhaliodd y cyngor hunan archwiliad gan fesur bod ei wasanaethau yn dda o'u cymharu â chanllawiau comisiynu Llywodraeth Cymru.

Canfu AGGCC drwy'r gwaith rheoleiddio fod y tîm comisiynu a chontractio yn cyflenwi gwasanaeth effeithiol, gan sicrhau bod darparwyr gofal cymdeithasol yn cael eu cynorthwyo i gyflenwi gofal o safon dda. Mae trefniadau effeithiol ar waith i sicrhau bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn ac mae'r cyngor yn sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i weithredu protocol uwchgyfeirio pryderon Llywodraeth Cymru yn llwyddiannus. Ceir ffocws cadarn ar berfformiad darparwyr a gwell canlyniadau i bobl.

Mae'r bwrdd diogelu oedolion wedi lansio ei gynllun busnes strategol aml-asiantaeth. Mae'n datgan y meysydd blaenoriaeth gyda'r nod o gyflawni ei

gyfrifoldebau yn Neddf Lles a Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) a chyflenwi darpariaeth diogelu plant ac oedolion integredig. Mae hyn yn canolbwyntio'n benodol ar feysydd megis cam-drin domestig gyda chynhadledd wedi'i threfnu ar gyfer Hydref 2014. Ceir cynlluniau dan y fframwaith cyffredinol ar gyfer cydweithio rhanbarthol i sefydlu bwrdd rhanbarthol diogelu oedolion.

Mae'r cyngor wedi buddsoddi i hyfforddi staff ychwanegol o'r maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol fel swyddogion ymchwiliol er mwyn gwella amseroldeb ymchwiliadau amddiffyn oedolion gyda gwybodaeth yn cefnogi gwelliannau yn y maes hwn. Dywed y cyngor bod ganddynt drefniadau gweithio da gyda Heddlu Dyfed Powys a bod mesurau effeithiol i werthuso risg ar atgyfeiriadau diogelu oedolion. Er bod arolygwyr AGGCC yn nodi'r gwelliannau maent yn dweud bod rhywfaint o anghysondeb o ran defnyddio'r trothwyon ac amseroldeb cynnal cyfarfodydd strategaeth. Felly, argymhellir bod y cyngor yn ystyried yn yr achosion hynny lle nad yw'r risgiau'n glir eu bod yn cynnal cyfarfod strategaeth aml-asantiaeth, a fyddai'n arwain at rannu gwybodaeth yn well rhwng asiantaethau ac a allai arwain at lai o angen am ymchwiliadau gan asiantaethau unigol. Rhaid i'r cyngor sicrhau bod penderfyniadau atgyfeirio i ddiogelu oedolion yn amserol a bod y risg yn cael ei rheoli'n effeithiol er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu.

Cynhaliwyd arolygiad thematig cenedlaethol o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) yng Nghymru ar y cyd rhwng AGGCC ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Canfu drefniadau effeithiol ar gyfer rheoli ceisiadau DoLS yn y cyngor gyda threfniadau llywodraethu clir ar gyfer arfer ei gyfrifoldebau fel corff goruchwyllo. Mae effaith y dyfarniad diweddar yn y Goruchaf Lys yn Achos Gorllewin Swydd Gaer wedi cynyddu nifer y ceisiadau'n sylweddol. Bydd gorfod delio â'r cynnydd hwn yn y galw yn cael effaith ar y gweithlu.

Plant

Mae'r cyngor yn parhau i ddangos ei ymrwymiad i ddatblygu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ymatebol sy'n cydnabod bod help yn gynnar yn sicrhau canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc. Mae'r gostyngiad ym mhoblogaeth y plant sy'n derbyn gofal ac yn nifer y plant sy'n destun achosion gofal yn dystiolaeth dda o gynnydd.

Gwelwyd cynnydd bychan yn nifer y plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant, ond gellir priodoli'r rhan fwyaf o hyn i grwpiau mawr o frodyr a chwiorydd. Mae proses cynnal cynadleddau amddiffyn plant y cyngor wedi gwella, gyda system ar waith sy'n cyd-fynd â'r *'Model Arwyddion Diogelwch'*. Cynhaliwyd adolygiad o'r system hon a gwelwyd bod rhieni'n cael eu cynnwys fwy yn y broses. Mae'r trefniadau gwell yn sicrhau bod plant yn cael eu diogelu'n well a bod proses amserol wedi'i sefydlu ar gyfer cynnal cynadleddau amddiffyn plant. Mae dros 97% o'r cynadleddau cychwynnol yn digwydd o fewn yr amserlenni gofynnol o'i gymharu ag 84% y llynedd. Mae perfformiad o safbwynt yr adolygiadau a gynhelir o gyfarfodydd cynadleddau wedi gwella o 97% y llynedd i ychydig dros 99%.

Mae'r trefniadau bwrdd lleol diogelu plant (BLIDP) yn effeithiol ac yn sicrhau bod plant yn elwa o wasanaethau sy'n eu hamddiffyn rhag niwed. Ceir tystiolaeth i gadarnhau bod y cyngor wedi datblygu trefniadau cydweithio effeithiol gyda'i asiantaethau partner er mwyn gwella canlyniadau diogelu i blant. Mae gwybodaeth reoli wedi cael ei darparu'n rheolaidd i'r pwyllgor craffu a rhoddwyd sylw i feysydd diffygiol drwy'r panel rhianta corfforaethol a chraffu. Mae BLIDP iau, lleol wedi cael ei sefydlu er mwyn sicrhau bod llais plant yn cael ei glywed fel rhan o flaenoriaethau diogelu'r cyngor.

Cafodd canllawiau adolygu ymarfer plant Llywodraeth Cymru eu gweithredu'n llawn gyda nifer o fforymau aml-asiantaeth i ymarferwyr yn cael eu cynnal. Mae'r adolygiadau hyn wedi ystyried sut allai gwelliannau gael eu gwneud mewn ymarfer diogelu a chafodd canlyniadau'r rhain eu bwydo i amcanion y bwrdd diogelu.

Mae'r cyngor yn sicrhau bod trefniadau cadarn ar gyfer diogelu wedi'u sefydlu ym maes addysg, gyda gwell mynediad i hyfforddiant a chefnogaeth i staff. Mae'r gwasanaeth lles addysg wedi cael ei ail-ddylunio gyda'r nod o ategu gwasanaethau ataliol eraill, fel TAF ac mae'n darparu ystod o strategaethau ymyrryd sy'n hyrwyddo gwell presenoldeb yn yr ysgol, yn ogystal ag yn rhoi sylw i faterion gyda theuluoedd sydd â phryderon ynghylch lles a diogelu. Dengys y dangosyddion perfformiad fod presenoldeb a chyrhaeddiad ymysg plant sy'n derbyn gofal wedi gwella ar draws y cyfnodau allweddol.

Canfu'r arolygiad blynyddol o wasanaeth maethu'r cyngor fod plant yn cael digon o gyfle i leisio'u barn, gyda chyfranogaeth a hawliau plant yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael lle amlwg ar draws y gwasanaeth. Mae gofalwyr maeth yn cael digon o gymorth gan gynnwys cymorth y tu allan i oriau a chymorth arbenigol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu bodloni lles corfforol ac emosiynol plant. Mae cyrhaeddiad addysgol ymysg plant sy'n derbyn gofal yn flaenoriaeth, a cheir systemau effeithiol i sicrhau bod gofalwyr maeth yn cynorthwyo plant i gael canlyniadau addysgol da. Mae gwell systemau wedi eu sefydlu o safbwynt cynlluniau addysg personol (CAP), ceir cynnydd o 51% ar gyfer y flwyddyn flaenorol i 73.7% yn 2013-14. Mae dull seiliedig ar unigolion o adolygu'r CAP wedi cael ei weithredu ac adroddir bod hyn yn gweithio'n effeithiol i gynnwys pobl ifanc a'u gofalwyr yn y broses. Mae cyflawniadau plant yn parhau i gael eu cydnabod gyda seremoni wobrwyo flynyddol.

Mae'r cyngor wedi cymryd y rôl arweiniol yn natblygiad yr asiantaeth fabwysiadu ranbarthol yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru o gael gwasanaeth mabwysiadu i Gymru. Dechreuodd y gwasanaeth mabwysiadu ranbarthol ym mis Ebrill 2014. Cyn mis Ebrill 2014, darparai Asiantaeth Mabwysiadu Gorllewin Cymru i'r cyngor drefniadau parhad effeithiol ar gyfer plant, a chaniatawyd deg ar hugain o orchmynion mabwysiadu yn ystod y flwyddyn. Un flaenoriaeth i'r cyngor, fel rhan o ddatblygiad y gwasanaeth ranbarthol, fydd datblygu gwasanaethau cymorth ôl-fabwysiadu ymhellach. Enillodd Gwasanaeth Mabwysiadu Gorllewin Cymru wobrwyo gan Gymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain yng Nghymru, am eu

creadigrwydd yn cynnal diwrnodau gwerthfawrogi plant.

Meysydd cynnydd

- Mae gwasanaethau ailalluogi wedi cael eu cryfhau.
- Llai o ddibyniaeth ar ofal preswyl ym maes gwasanaethau oedolion.
- Mwy o allu ymysg swyddogion ymchwilio ym maes diogelu oedolion.
- Gwell cyfranogaeth ac ymgynghori gyda theuluoedd a phlant.
- Sefydlwyd Bwrdd Lleol Diogelu Plant iau.
- Mae Asiantaeth Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi dod yn weithredol.

Meysydd i'w gwella

- Cysondeb ym maes diogelu oedolion o safbwynt defnyddio trothwyon priodol mewn atgyfeiriadau ac amseroldeb cynnal cyfarfodydd strategaeth.
- Adolygu'r trefniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sydd ag ymddygiad peryglus.

Capasiti

Cyflenwi Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'r cyngor yn parhau i wneud cynnydd cadarn i drawsnewid cyflenwi gwasanaethau sy'n lleihau dibyniaeth ac yn hyrwyddo annibyniaeth. Ei nod yw sicrhau mwy o annibyniaeth a dewis i bobl leol, gyda strategaethau ataliol wrth wraidd y gwasanaethau a gyflenwir ym maes gwasanaethau i oedolion a phlant, fel ei gilydd. Mae'r cyngor yn edrych fwyfwy am gyfleoedd i gydweithio a chefnogir hyn gan well prosesau comisiynu a chaffael. Ceir ymrwymiad cryf i ddatblygu strategaeth gymunedol integredig ranbarthol.

Mae arweinydd y cyngor wedi datgan y blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol yn y cynllun gwella a'r adroddiad blynyddol, ac mae hyn yn dangos ymrwymiad cadarn y cyngor i gyflenwi gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant ac oedolion. Mae eisiau darparu gwasanaethau sy'n cael eu cyflenwi'n effeithlon ac sy'n gwella lles pobl, gan roi iddynt fwy o ddewis a rheolaeth dros eu bywydau.

Mae'r cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu gweithlu cryf a phroffesiynol ac mae'n parhau i fuddsoddi yn ei weithlu gofal cymdeithasol drwy gyfrwng y bartneriaeth datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol (SCWD) a gwelwyd cynnydd sylweddol yn y presenoldeb ar gynlluniau hyfforddiant yn ystod y flwyddyn sy'n cynnwys ennill cymwysterau proffesiynol. Mae'r SCWD yn hyrwyddo athroniaeth un sector un

gweithlu gyda'r nod allweddol o wella canlyniadau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol, drwy'r trefniant cydweithredol hwn.

Mae'r gweithlu'n parhau i fod yn sefydlog ac mae nifer y swyddi gwag yn isel; fodd bynnag, cafwyd rhai newidiadau ym maes gwasanaethau plant. Adroddwyd mai effaith fechan gafodd hyn ar gyflenwi gwasanaethau, ond gwelwyd bod yr amserlenni ar gyfer cymeradwyo hysbysebu am swyddi yn achosi dipyn o oedi a bod hynny wedi effeithio ar gyflenwi gwasanaethau. Cyflwynwyd gwell trefniadau personél gydag absenoldeb oherwydd salwch yn cael ei reoli'n well a gwell cefnogaeth i staff a rheolwyr.

Mae systemau rheoli perfformiad yn effeithiol gyda pheirianweithiau wedi'u sefydlu ym maes gwasanaethau oedolion a phlant i fonitro perfformiad. Mae uwch swyddogion yn goruchwyllo perfformiad yn effeithiol. Mae trafodaethau ac adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn wedi dangos bod y cyngor wedi rhoi sylw i'r meysydd a nodwyd yn adroddiad gwerthuso perfformiad y llynedd. Mae gwybodaeth o arolygiadau rheoleiddio yn cadarnhau bod y cyngor yn parhau i berfformio'n dda, gyda phobl yn cael canlyniadau da ar y cyfan.

Mae gan y cyngor drefn gwyno effeithiol a chaiff hon ei defnyddio'n effeithiol i lywio datblygiadau mewn gwasanaethau i'r dyfodol. Er bod cwynion yn ystod y flwyddyn wedi gostwng yn gyffredinol, bu cynnydd mewn rhai meysydd gwasanaeth. Mae canmoliaethau i'r cyngor wedi cynyddu gyda phobl yn gadarnhaol iawn am y gwasanaethau maent wedi'i gael.

Mae'r cyngor yn sicrhau bod Polisi Llywodraeth Cymru, 'Mwy na Geiriau', yn cael ei weithredu'n effeithiol, gyda threfniadau cadarn ar waith i sicrhau y gall y gweithlu gofal cymdeithasol fodloni anghenion pobl drwy gyfrwng y Gymraeg. Cynllun y cyngor yw sicrhau bod y Gymraeg yn dod yn rhan annatod o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau. Mae'r tîm dysgu a datblygu wedi ennill gwobr am eu gwaith wrth hyrwyddo'r Gymraeg ymysg y gweithlu.

Meysydd cynnydd

- Cryfhau'r gwasanaethau ataliol ymhellach.
- Y cydweithredu rhanbarthol.
- Trefniadau cadarnach ar gyfer hyfforddi a chefnogi staff.

Meysydd i'w gwella

- Mae swyddi staff gwag yn cael eu llenwi yn amserol i sicrhau nad ydynt yn tarfu llawer ar wasanaethau.

Darparu cyfarwyddyd

Mae'r cyngor yn parhau i ddarparu cefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gadarn ar gyfer cyflenwi gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae trefniadau cydweithredu effeithiol ar waith ynghyd â threfniadau llywodraethu clir gyda'r trydydd sector, asiantaethau partner a chynghorau cyfagos. Mae strategaeth integredig Sir Gaerfyrddin yn cyflwyno cynllun y cyngor ar gyfer cyflenwi gwasanaethau uchelgeisiol, arloesol a chynaliadwy ar draws gwasanaethau oedolion a phlant. Nod y strategaeth yw darparu gwasanaethau sydd wedi'u hunioni'n well, gan ganolbwyntio ar werth am arian a sicrhau, ar yr un pryd, fod teuluoedd yn byw bywydau diogel ac iach heb dlodi nac amddifadedd.

Mae cynllun cydweithredol lechyd a Gofal Cymdeithasol Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi datblygu'r gorchymyn ar gyfer gweithio rhanbarthol i'r dyfodol ac mae'n datgan sut caiff gwasanaethau eu cyflenwi'n fwy effeithiol drwy gyfrwng y partneriaethau rhanbarthol hyn. Bydd hyn yn helpu'r Cyngor i sicrhau ffyrdd cynaliadwy, hyblyg ac addasadwy o weithio a fydd yn sicrhau y gallant barhau i gyflenwi gwasanaethau gofal cymdeithasol effeithiol.

Mae arweinyddiaeth yn y cyngor yn gryf ar draws y gwasanaethau i oedolion a phlant, ac mae swyddogion yn gweithio'n effeithiol i ddatblygu dull integredig o gyflenwi gwasanaethau fydd yn eu rhoi mewn sefyllfa dda ar gyfer gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) Llywodraeth Cymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn dod i'r casgliad bod y cyngor yn rheoli ei raglen ar gyfer gwella yn dda ac yn parhau i ddarparu adroddiadau cyhoeddus sy'n rhoi asesiad teg a chytbwys o gynnydd yn ogystal â'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau.

Mae'r trefniadau craffu'n effeithiol ac mae swyddogion yn darparu i aelodau etholedig wybodaeth fanwl, gyda'r aelodau'n darparu i swyddogion her gadarn er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn effeithiol. Fodd bynnag, mae adroddiadau budd cyhoeddus gan Swyddfa Archwilio Cymru wedi tynnu sylw at yr angen i'r cyngor ddiwygio ei weithdrefnau ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Mae uwch swyddogion yn darparu arweinyddiaeth gref a chymorth i sicrhau bod gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn cael eu darparu'n effeithiol i ddinasyddion Sir Gaerfyrddin. Un ffactor arwyddocaol yn hyn yw bod y cyngor wedi cael cysondeb yn ei uwch reolwyr. Fodd bynnag, mae nifer o uwch swyddogion i fod i ymddeol. Dylai'r cyngor sicrhau bod y cyfnod trawsnewid yn cael ei reoli'n dda a bod y grŵp staff ehangach yn cael ei gefnogi i gynnal perfformiad cymharol gryf y gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'r cyfarwyddwr statudol sy'n ymddeol ym mis Medi wedi darparu arweinyddiaeth effeithiol ym maes gwasanaethau oedolion a phlant. Mae wedi helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflenwi'n effeithiol a bod gan bobl yn y cyngor fynediad i wasanaethau cymorth sy'n cyfoethogi eu bywydau. Mae'r cyngor wedi rhoi trefniadau dros dro addas ar waith o safbwynt rôl y cyfarwyddwr

statudol nes bydd y cyfarwyddwr newydd yn dechrau yn ei swydd ym mis Tachwedd.

Mae'r cyfarwyddwr addysg a phennaeth y gwasanaethau plant yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ym maes gwasanaethau plant. Mae cyfluniad y gwasanaethau'n gweithio'n dda, gydag unioniad clir rhwng y gwasanaethau ataliol a'r gwasanaethau statudol i sicrhau bod gwasanaethau'n targedu grwpiau agored i niwed ac yn rhoi sylw i anfantais a thlodi plant. Eleni gwelwyd gwell dangosyddion perfformiad gyda thystiolaeth i gefnogi canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc.

Meysydd cynnydd

- Datblygu gwasanaethau integredig ymhellach er mwyn gwella effeithlonrwydd y cyngor.